Archwiliad 2009-10

Mai 2010

Awdur: Ceri Stradling

Cyf: 305A2010

# Strategaeth Archwilio Ariannol 2009-10

# Cronfa Bensiwn Gwynedd

## Cynnwys


**Strategaeth Archwilio Ariannol**

Cyflwyniad 4

Archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi'i weinyddu gan Gyngor Gwynedd 4

Dull Archwilio 5

Ffi archwilio 6

Y tîm archwilio 7

Cyflawni'r gwaith 8

**Atodiadau**

Rolau a chyfrifoldebau 9

Elfennau allweddol o'r archwiliad 11

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Cyflwyniad

1. Cyngor Gwynedd (y Cyngor) yw'r awdurdod gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Gronfa Bensiwn). Mae'r Strategaeth Archwilio Ariannol hon yn nodi'r gwaith archwilio sydd i'w gyflawni gan yr Archwilydd Penodedig ar y Gronfa Bensiwn o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004).
2. Nodir rolau a chyfrifoldebau ffurfiol yr Archwilydd Penodedig yn Atodiad 1. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi fy mhenodi i, Anthony Barrett, fel archwilydd allanol y Cyngor ac felly fi yw Archwilydd Penodedig y Gronfa Bensiwn. Bydd Ceri Stradling yn fy nghynorthwyo fel Partner Ymgysylltu.
3. Paratowyd y Strategaeth hon ar sail fy asesiad o'r risgiau ariannol a gweithredol a wynebir gan y Gronfa Bensiwn a allai effeithio ar yr archwiliad.

## Archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd

4. Y Cyngor yw'r awdurdod gweinyddu ar gyfer y Gronfa Bensiwn. Hyd at 2008-09, archwiliwyd y Gronfa Bensiwn fel rhan o'r archwiliad o gyfrifon y Cyngor.
5. Fodd bynnag, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yn rhaid trin yr archwiliad o gronfeydd pensiwn fel archwiliadau ar wahân cyhyd ag y bo'n bosibl yn 2008-09 ac mewn blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn gofyn i waith sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Bensiwn gael ei gynllunio, ei gyflawni a'i gofnodi ar wahân yn hytrach nag yng nghyd-destun y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Hefyd mae'n rhaid iddo gydymffurfio'n llawn â gofynion Safonau Archwilio Rhyngwladol.
6. Mae'r newid hwn yn gwella cyfraniad yr archwiliad at gynnal safonau llywodraethu uchel gan sicrhau y rhoddir sylw penodol i ofynion cyfrifyddu ac archwilio sy'n berthnasol i Gronfeydd Pensiwn.
7. Felly mae angen cynlluniau archwilio, ffioedd, adroddiadau ar Safon Archwilio Ryngwladol 260 a Llythyrau Blynyddol ar wahân. Fodd bynnag, ni cheir adroddiad archwilio ar wahân na chasgliad ar wahân ar y Defnydd o Adnoddau ar gyfer y Gronfa Bensiwn oherwydd bydd y rhain yn parhau i fod yn rhan o adroddiad yr archwilydd i'r Cyngor.
8. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Pensiwn sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Gronfa Bensiwn er mwyn goruchwylio'i gwaith ac yn unol â hynny cyflwynaf yr adroddiad hwn i'ch hysbysu am y Strategaeth Archwilio arfaethedig ar gyfer y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2009-10. Caiff yr adroddiad hefyd ei gyflwyno i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu’r Cyngor yn ei gyfanrwydd.

# Dull Archwilio

9. Mae'n ofynnol i mi roi barn archwilio ynghylch a yw cyfrifon y Gronfa Bensiwn a nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa, heblaw am rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd bod cyfrifon y Gronfa Bensiwn:
   - yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, a achoswyd drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall;
   - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill;
   - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon.
10. Caiff y farn ei chynnwys mewn adran ar wahân yn adroddiad archwilio'r awdurdod gweinyddu.
11. Wrth gyflawni fy ngwaith a llunio barn, yn unol â safonau archwilio, rwyf yn ystyried y cysyniad o berthnasedd. Mae mater yn berthnasol pe bai ei hepgor neu ei gamddatgan yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr y cyfrifon. Caiff ffactorau meintiol ac ansoddol eu hystyried.
12. Rwy'n meithrin dealltwriaeth o'r rheolaethau mewnol sy'n berthnasol i'm harchwiliad, sy'n fy helpu i nodi mathau o gamddatganiadau posibl, ystyried ffactorau sy'n effeithio ar y risg o gamddatganiadau perthnasol a phenderfynu ar natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio. Rwy'n ystyried y rheolaethau 'lefel uchel' (yn cynnwys rheolaethau dros y systemau cyfrifyddu a chyllidebol a'r broses o baratoi datganiadau ariannol) yn ogystal â rheolaethau dros systemau ariannol unigol.
13. Wrth gynllunio fy ngwaith, rwy'n ystyried gweithgareddau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i benderfynu ar effaith bosibl ei waith ar fy ngweithdrefnau arfaethedig ac i werthuso i ba raddau y gallaf ddibynnu ar y gwaith hwnnw. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ynghylch i ba raddau y mae ei waith yn berthnasol i'm harchwiliad.
14. Er mwyn cyhoeddi'r adroddiad archwilio ar gyfrifon y Gronfa Bensiwn, mae'n rhaid i mi sicrhau y nodir pob risg weithredol ac ariannol sylweddol a allai effeithio ar yr archwiliad ac yr eir i'r afael â hwy. Mae asesiad cychwynnol o'r risgiau hyn wedi'i gyflawni, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Arddangosyn 1.

**Arddangosyn 1: Asesiad risg yr archwiliad o'r Gronfa Bensiwn**

| Risg i'r cyfrifon | Camau arfaethedig |
|---|---|
| Risg nad yw cyfrifon na nodiadau cysylltiedig y Gronfa Bensiwn yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol, asedau a rhwymedigaethau. | Profi systemau, trafodion a balansau'n ofalus. |
| Risg bod y sefyllfa economaidd barhaus yn cael effaith andwyol ar werth ac elw buddsoddiadau. | Adolygu trefniadau rheoli cyllidebol a strategaeth fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn. |
| Risg bod achosion perthnasol o dwyll yng nghyfrifon y Gronfa Bensiwn. | Cynnal asesiad risg o dwyll yn ogystal â phrofi'r meysydd risg yn ofalus yn ôl yr angen. |
| Risg bod trefniadau llywodraethu'n annigonol. | Adolygu trefniadau llywodraethu. |

15. Mae hefyd yn ofynnol i gyrff gweinyddu gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y gronfa bensiwn y mae'n rhaid iddo gynnwys cyfrifon y Gronfa Bensiwn.

16. Mae'n ofynnol i mi:

- ddarllen yr adroddiad blynyddol ar y Gronfa Bensiwn ac ystyried a yw'r wybodaeth sydd ynddo yn gyson â chyfrifon y Gronfa Bensiwn;
- cyhoeddi datganiad archwilio yn cadarnhau bod y cyfrifon sydd yn yr adroddiad blynyddol yn gyson â chyfrifon archwiliedig y Gronfa Bensiwn a geir yn Natganiad Cyfrifon yr awdurdod gweinyddu.

## Ffi archwilio

17. Mae llythyr ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2009-10 yn nodi isafswm o £25,000 ac uchafswm o £45,000 ar gyfer cronfeydd pensiwn. Rwyf wedi ystyried y raddfa ffioedd hon yn erbyn fy ngwybodaeth am nodweddion penodol, rheolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu'r Gronfa Bensiwn. Ar y sail hon, deuthum i'r casgliad y dylid gosod ffi archwilio 2009-10 ar y lefel isaf, sef £25,000 (ynghyd â TAW). Y ffi archwilio ar gyfer 2008-09 oedd £20,032 (ynghyd â TAW). O'r cynnydd hwn, mae £4,618 yn cyfateb i leihad ym mhrif ffi archwilio Cyngor Gwynedd. Mae'r balans yn gynnydd o 1.75 y cant oherwydd chwyddiant fel y nodir yn y llythyr ffioedd.

18. Pennwyd y ffi archwilio ar sail y gwaith sy'n ofynnol i gyflawni fy nyletswyddau fel archwilydd allanol. Rydych wedi cytuno bod y gwaith hwn yn angenrheidiol i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan yr asesiad risg. Bydd y broses gynllunio yn parhau, ac efallai y bydd angen newid y Strategaeth os bydd unrhyw risgiau newydd sylweddol yn codi a allai effeithio ar yr archwiliad.

19. Fel rhan o'r broses gynllunio, rhoddodd y tîm archwilio, ar y cyd â'ch staff chi, gryn ystyriaeth i'r wybodaeth y byddai ei hangen i ategu'r cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio. Mae'r ffi a nodwyd uchod yn tybio y caiff y wybodaeth hon ei darparu'n amserol yn y ffordd y cytunwyd arni. Y prif dybiaethau eraill wrth bennu'r ffi hon yw:

- bod y cyfrifon wedi cael eu hadolygu a'u dilysu gan reolwyr er mwyn rhoi sicrwydd i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol eu bod yn 'rhoi darlun teg a chywir';
- bod staff priodol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gael yn ystod yr archwiliad;
- bod yr holl reolaethau a phrosesau dilysu angenrheidiol ar waith gennych fel eich bod yn gallu rhoi'r holl sicrwydd sydd ei angen yn eich Llythyr Cynrychiolaeth;
- bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cwblhau ei raglen waith fel y bwriadwyd a bod rheolwyr wedi cymryd yr holl gamau gweithredu adferol angenrheidiol ar faterion a allai fod wedi effeithio ar y cyfrifon.

20. Gellir addasu'r ffi a nodwyd os bydd amgylchiadau eithriadol yn codi sy'n arwain at waith archwilio ychwanegol. Mewn achosion o'r fath, trafodir unrhyw addasiad gyda'ch staff ymlaen llaw.

## Y tîm archwilio

21. Ceir crynodeb o brif aelodau'r tîm archwilio, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 2.

**Arddangosyn 2: Y tîm archwilio**

Prif aelodau'r tîm a manylion cyswllt

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Anthony Barrett | Archwilydd Penodedig | 01244 525970 | anthony.barrett@wao.gov.uk |
| Ceri Stradling | Partner Ymgysylltu'r Archwiliad Ariannol | 01244 525970 | ceri.stradling@wao.gov.uk |
| Amanda Hughes | Y Rheolwr Archwilio | 01286 679974 | amanda.hughes@wao.gov.uk |
| Alan Hughes | Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol | 01286 679158 | alan.hughes@wao.gov.uk |

# Cyflawni'r gwaith

22. Byddwn yn darparu adroddiadau, neu gyhoeddiadau eraill fel y cytunir arnynt, a nodir ein cerrig milltir allweddol isod.

**Arddangosyn 3: Cerrig milltir allweddol**

Cyhoeddiadau a thargedau arfaethedig

| Deunydd arfaethedig | Dyddiad cychwyn arfaethedig | Adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| Strategaeth Archwilio | Chwefror 2010 | Mai 2010 |
| Adroddiad ar ddatganiadau ariannol – i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu | Medi 2010 | Medi 2010 |
| Llythyr Archwilio Blynyddol | Hydref 2010 | Tachwedd 2010 |

Atodiad 1

# Rolau a chyfrifoldebau

Ailsefydlwyd swydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O 1 Ebrill 2005, ymestynnodd Deddf 2004 swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i gynnwys penodi archwilwyr allanol ar gyfer cyrff llywodraeth leol.

## Archwilwyr penodedig

Mae'n rhaid i archwilwyr penodedig gynnal archwiliad sy'n cyflawni'r dyletswyddau statudol a osodwyd arnynt o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 a Deddf 2004. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio (y Cod) sy'n rhagnodi'r ffordd y disgwylir i'r archwilwyr gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n ymgynghori ar God diwygiedig ar hyn o bryd.

O dan Reoliad 7 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd), mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru lunio datganiadau cyfrifon blynyddol[1], wedi'u paratoi yn unol â'r arferion priodol a nodir yn y Cod Ymarfer perthnasol ar drefniadau *Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig – Datganiad o'r Arfer a Argymhellir*.

Mae Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ategu'r rheoliadau hyn â chanllawiau i gynorthwyo cyrff llywodraeth leol i weithredu'r gyfundrefn gyfrifyddu. Ni fwriedir i'r canllawiau hynny fod yn rhan o'r fframwaith statudol ond maent yn sylwadaeth anffurfiol sy'n cynnwys syniadau yn ymwneud ag arfer da a chyngor ymarferol ac yn rhoi manylion ynghylch ble y gellir dod o hyd i godau cyhoeddedig a gydnabyddir yn gyffredinol sy'n nodi arferion priodol.

O dan Adran 13 o Ddeddf 2004, mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru sicrhau yr archwilir eu cyfrifon gan un neu fwy o archwilwyr a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 14 o'r Ddeddf. Mae adrannau 17 a 23 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr penodedig archwilio ac ardystio'r cyfrifon, gan fodloni eu hunain:

- bod y cyfrifon:
  - yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor;
  - yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Gronfa Bensiwn a swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa, ar wahân i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun;
  - yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol;
  - wedi'u paratoi yn unol ag arferion priodol.
- bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol i gasglu, cofnodi a chyhoeddi gwybodaeth am safonau perfformiad fel sy'n ofynnol gan unrhyw gyfarwyddyd o dan Adran 47 o'r Ddeddf.

[1] Gwneir y rheoliadau hyn gan y Cynulliad o dan y pwerau statudol a geir yn Adran 39 o Ddeddf 2004.

## Hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu o faterion archwilio – Safon Archwilio Ryngwladol (y DU ac Iwerddon) 260

Mae Safon Archwilio Ryngwladol (y DU ac Iwerddon) 260:

- yn rhoi canllawiau ar gyfleu 'materion perthnasol sy'n ymwneud â'r archwiliad' o ddatganiadau ariannol rhwng archwilwyr a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu corff a archwilir;
- yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (yn wahanol i reolwyr) gyflwyno adroddiad ar faterion penodol cyn iddynt roi barn ar y datganiadau ariannol.

Bydd yr Archwilydd Penodedig yn cyflawni'r cyfrifoldeb o fod yn atebol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu drwy gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Pensiwn neu'r Pwyllgor Archwilio yn amserol, lle y bo angen, cyn cwblhau archwiliad.

Atodiad 2

# Elfennau allweddol o'r archwiliad

| Elfennau allweddol | Gofynion | Sefyllfa o ran Cronfa Bensiwn Gwynedd |
|---|---|---|
| **Gweithgareddau ymgysylltu** | | |
| Telerau ymgysylltu'r archwiliad | Mae Deddf 2004 yn nodi'r cyfrifoldeb am benodi archwilwyr allanol llywodraeth leol yng Nghymru. | Nodir rolau a chyfrifoldebau archwilwyr penodedig uchod ac yn Atodiad 1.<br>Gellir cael gafael ar y datganiad llawn o gyfrifoldebau yn:<br>http://www.wao.gov.uk/cymraeg/whatwedo/101.asp |
| Penodi archwilwyr a phartneriaid ymgysylltu | Cyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol yw penodi archwilwyr allanol llywodraeth leol a phennu cyfrifoldeb am bob ymgysylltiad i bartner ymgysylltu. | Yr Archwilydd Penodedig yw Anthony Barrett, a gaiff ei gefnogi gan Ceri Stradling fel Partner Ymgysylltu. |
| Gwaith 'anstatudol' | Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi meini prawf clir ar gyfer cymeradwyo unrhyw waith 'anstatudol' y gofynnir amdano gan gyrff a archwilir ac a arolygir. | Ni ofynnwyd am unrhyw waith 'anstatudol' ac nid oes unrhyw beth yn yr arfaeth. |
| **Ystyriaethau moesegol** | | |
| Annibyniaeth | Mae'n ofynnol i archwilwyr penodedig ystyried y canlynol:<br>• bygythiadau i annibyniaeth yr archwilydd (gan gynnwys ymgyfreitha);<br>• teulu a chydberthnasau personol eraill;<br>• cysylltiad hirdymor â'r corff a archwilir, yn seiliedig ar bolisi Swyddfa Archwilio Cymru o gylchdroi archwiliadau;<br>• materion dadleuol neu anodd. | Gallwn gadarnhau nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i annibyniaeth yr Archwilydd Penodedig na staff archwilio eraill ac rydym wedi cydymffurfio â pholisi cylchdroi Swyddfa Archwilio Cymru. |
| Perfformiad ymgysylltu | Mae angen i bartneriaid ymgysylltu ystyried pa lefel o sicrwydd ansawdd a lefelau adolygu sy'n briodol. | Mae gweithdrefnau adolygu rheoli ansawdd Swyddfa Archwilio Cymru ar waith ar gyfer pob archwiliad, ac mae'r Partner Ymgysylltu wedi pennu lefelau adolygu priodol yn seiliedig ar brofiad y staff sy'n mynd i'r afael â'r gwaith archwilio. |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk